DEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2024

NODIADAU ESBONIADOL

CYFLWYNIAD

1. Mae'r Nodiadau Esboniadol hyn ar gyfer Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)2024 a basiwyd gan Senedd Cymru ar 16 Gorffennaf 2024 ac a gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 16 Medi 2024. Fe'u lluniwyd gan Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig er mwyn cynorthwyo'r sawl sy'n darllen y Ddeddf. Dylid darllen y Nodiadau Esboniadol ar y cyd â'r Ddeddf ond nid ydynt yn rhan ohoni. Os ymddengys nad oes angen rhoi unrhyw esboniad neu sylw ar ddarpariaeth yn y Ddeddf, nis rhoddir.

CRYNODEB A CHEFNDIR

2. Yn y Ddeddf ceir tair Rhan ac Atodlen. Mae'r Rhan gyntaf yn ymwneud ag ardrethu annomestig, mae'r ail Ran yn ymwneud â'r dreth gyngor ac mae'r drydedd Ran yn cynnwys darpariaethau cyffredinol. Mae'r Atodlen yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

RHAN 1 – ARDRETHU ANNOMESTIG

Adran 1 – Trosolwg o Ran 1

3. Mae adran 1 yn rhoi trosolwg o'r adrannau yn Rhan 1.

Adran 2 – Rhestrau ardrethu lleol

4. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 41ZA (Rhestrau ardrethu lleol: Cymru) yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988"). Mae adran 41ZA yn nodi'r trefniadau ar gyfer llunio rhestrau ardrethu annomestig lleol, gan gadw effaith adran 41 o Ddeddf 1988 i raddau helaeth o ran Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhestrau hynny gael eu llunio bob tair blynedd (yn hytrach na phob pum mlynedd). Felly gan fod rhestr leol wedi ei llunio ddiwethaf ar 1 Ebrill 2023, bydd y rhestr nesaf yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026 (yn hytrach nag ar 1 Ebrill 2028).

5. Cedwir y gofynion presennol ar y swyddog prisio i baratoi rhestrau arfaethedig a rhestrau wedi eu llunio. Rhaid i'r awdurdod bilio gadw copi ar ffurf electronig o'r rhestrau arfaethedig a'r rhestrau wedi eu llunio. Mae'r gofynion hyn wedi eu moderneiddio, gan ei bod yn ofynnol yn flaenorol i awdurdod bilio adneuo copi o'r rhestr yn ei brif swyddfa.

6. Rhaid i'r swyddog prisio gynnal rhestr a lunnir o dan adran 41ZA neu a lunnir ar y dyddiadau a grybwyllir yn adran 41ZA(11)(b) o Ddeddf 1988 cyhyd ag sy'n angenrheidiol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 1988. Y dyddiadau yw'r rhai yr oedd yn ofynnol i restrau gael eu llunio arnynt o dan adran 41 o Ddeddf 1988 (fel y'i haddaswyd gan adran 54A). Mae'r cofnod hwn o ddyddiadau ailbrisio blaenorol yn sicrhau eglurder ynghylch y gofyniad parhaus i gynnal y rhestrau a luniwyd o dan adran 41 o Ddeddf 1988. Ni chyfeirir at restrau lleol a luniwyd ar 1 Ebrill 1995, gan fod y rhestrau a luniwyd ar 1 Ebrill 1996 yn aildrefnu rhestrau 1995 ac yn cael eu trin fel y rhestrau a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 1995.

Adran 3 – Rhestrau ardrethu canolog

7. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 52ZA (Rhestrau ardrethu canolog Cymru) yn Neddf 1988. Mae adran 52ZA yn nodi'r trefniadau ar gyfer llunio rhestrau ardrethu annomestig canolog, gan gadw effaith adran 52 o Ddeddf 1988 i raddau helaeth o ran Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhestrau hynny gael eu llunio bob tair blynedd (yn hytrach na phob pum mlynedd). Felly, gan fod rhestr ganolog wedi ei llunio ddiwethaf ar 1 Ebrill 2023, bydd y rhestr nesaf yn cael ei llunio ar 1 Ebrill 2026 (yn hytrach nag ar 1 Ebrill 2028).

8. Cedwir y trefniadau presennol i'r swyddog prisio canolog baratoi rhestrau arfaethedig a rhestrau wedi eu llunio. Rhaid i Weinidogion Cymru gadw copi ar ffurf electronig o'r rhestrau arfaethedig a'r rhestrau wedi eu llunio. Mae'r gofynion hyn wedi eu moderneiddio, gan ei bod yn ofynnol yn flaenorol i Weinidogion Cymru adneuo copi o'r rhestr yn eu prif swyddfa.

9. Rhaid i'r swyddog prisio canolog gynnal rhestr a luniwyd o dan adran 52ZA neu a luniwyd ar y dyddiadau a grybwyllir yn adran 52ZA(11)(b) o Ddeddf 1988, cyhyd ag sy'n angenrheidiol at ddibenion Rhan 3 o Ddeddf 1988. Bwriad y cofnod o ddyddiadau ailbrisio blaenorol a ddarperir gan adran 52ZA(11)(b) o Ddeddf 1988 yw sicrhau eglurder ynghylch y gofyniad parhaus i gynnal y rhestrau a luniwyd o dan adran 52 o Ddeddf 1988. Yn wahanol i adran 41ZA(11)(b), cyfeirir at y rhestr yr oedd yn ofynnol ei llunio yn 1995 (ac nid yn 1996), gan nad oedd yn angenrheidiol llunio rhestr ganolog newydd yn 1996.

Adran 4 – Pŵer i ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio

10. Mae'r adran hon yn mewnosod adran 54AB (Pŵer i ddiwygio'r flwyddyn ailbrisio: Cymru) yn Neddf 1988, gan roi pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n diwygio blwyddyn ailbrisio a'r cyfnod rhwng blynyddoedd ailbrisio. Rhaid llunio rhestrau ardrethu lleol a chanolog newydd ar 1 Ebrill mewn blwyddyn ailbrisio. Rhaid i reoliadau a wneir o dan y pŵer hwn nodi'r un flwyddyn neu'r un cyfnod mewn perthynas â rhestrau ardrethu lleol a chanolog, er mwyn sicrhau bod ailbrisiadau'n parhau i ddigwydd ar yr un pryd. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft.)

11. Mae adran 58 o Ddeddf 1988 yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi rheolau gwahanol ar gyfer cyfrifo'r swm a godir yn ystod cyfnod perthnasol sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff rhestrau ardrethu newydd eu llunio. Mae'r cyfnod perthnasol yn gyfnod o flynyddoedd sy'n adlewyrchu'r cyfnod rhwng ailbrisiadau. Mae rheoliadau o dan y pŵer hwn wedi darparu ar gyfer rhyddhad trosiannol yn dilyn ailbrisiadau. Mae adran 54AB(3) o Ddeddf 1988 yn sicrhau, os caiff y cyfnod rhwng blynyddoedd ailbrisio ei ddiwygio, bod rhaid gwneud diwygiad fel bod y pŵer yn adran 58 yn gweithredu mewn perthynas â'r un cyfnod.

Adran 5 - Pwerau i roi ac amrywio rhyddhadau, a'u tynnu'n ôl

12. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988. Mae'r Atodlenni hyn yn darparu ar gyfer cyfrifo'r swm o ardrethu annomestig a godir am ddiwrnod y codir swm ynglŷn ag ef, mewn cysylltiad â hereditament, ac yn darparu ar gyfer cymhwyso rhyddhadau rhannol a rhyddhadau llawn rhag ardrethu annomestig. Mae Atodlen 4ZA yn gwneud y ddarpariaeth hon mewn perthynas â hereditamentau a feddiennir ar restr ardrethu leol, mae Atodlen 4ZB yn gwneud y ddarpariaeth hon mewn perthynas â hereditamentau heb eu meddiannu ar restr ardrethu leol, ac mae Atodlen 5A yn gwneud y ddarpariaeth hon mewn perthynas â hereditamentau ar restr ardrethu ganolog.

13. Mae is-adran (2) yn mewnosod Rhan 3A yn Atodlen 4ZA i Ddeddf 1988, mae is-adran (3) yn mewnosod Rhannau 2A a 2B yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, ac mae is-adran (4) yn mewnosod Rhan 2A yn Atodlen 5A i Ddeddf 1988. Mae pob un o'r Rhannau newydd hyn yn cynnwys pwerau cyfatebol i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhoi ac amrywio rhyddhadau, neu'n eu tynnu'n ôl, mewn cysylltiad â'r hereditamentau y mae pob Atodlen yn gymwys iddynt. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft.)

14. Ym mhob achos, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i ragnodi sawl rhyddhad rhannol (gweler paragraffau newydd 8A, 2A a 4A o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988, yn y drefn honno). Caiff pob rhyddhad rhannol fod yn gymwys pan fodlonir yr amodau a ragnodir yn y rheoliadau a rhaid eu gosod ar lefel a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau gan ddefnyddio'r fformiwla "AxM/C – F", lle y mae "F" yn dynodi swm y rhyddhad.

15. O dan y pwerau newydd hyn, caiff Gweinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth o ran cyfrifo'r swm a godir mewn achosion pan fo mwy nag un rhyddhad a ragnodir yn y rheoliadau yn gymwys mewn perthynas â hereditament. Caiff darpariaeth o'r fath ei gwneud yn ofynnol i gyfrifo'r swm a godir gan ystyried un neu ragor o'r rhyddhadau cymwys.

16. Yn yr un modd, caiff Gweinidogion Cymru arfer y pŵer i ragnodi sawl rhyddhad llawn a chaiff rhyddhadau o'r fath fod yn gymwys pan fodlonir yr amodau a ragnodir yn y rheoliadau (gweler paragraffau newydd 8B, 2B a 4B o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988, yn y drefn honno).

17. Mae Atodlenni 4ZA a 5A i Ddeddf 1988 yn gwneud darpariaeth ynghylch achosion pan fo mwy nag un o'r rhyddhadau a nodir ym mhob un o'r Atodlenni hynny yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament. Mae'r adran hon yn diwygio'r darpariaethau hyn er mwyn cynnwys rhyddhadau llawn a rhannol a roddir o dan y pwerau newydd i wneud rheoliadau ac yn mewnosod Rhan newydd 2B sy'n gwneud darpariaeth gyfatebol yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988. Ym mhob achos, mae'r adran hefyd yn mewnosod pŵer i Weinidogion Cymru i ddiwygio'r ddarpariaeth bresennol hon neu wneud darpariaeth bellach drwy reoliadau.

18. Nid yw darpariaethau Atodlenni 4ZA a 5A i Ddeddf 1988 sy'n egluro pa baragraff i'w ddefnyddio i gyfrifo'r swm a godir mewn achosion lle mae mwy nag un rhyddhad yn gymwys yn cyfeirio at baragraffau 3 o'r Atodlenni hynny yn eu tro, sy'n ymwneud â rhyddhad ardrethi gwelliannau. Mae hyn oherwydd y gall y rhyddhad hwnnw fod yn gymwys yn ychwanegol at unrhyw ryddhad arall a'i fod yn gweithredu mewn ffordd neilltuol, fel addasiad i werth ardrethol yr hereditament cyn cymhwyso'r lluosogydd ac unrhyw ryddhad arall. Caiff paragraffau 3 o Atodlenni 4ZA a 5A, felly, fod yn gymwys yn ychwanegol at unrhyw baragraff arall yn yr Atodlenni hynny, ac nid ydynt yn anghymhwyso, nac yn cael eu hanghymhwyso gan, unrhyw baragraff arall.

19. Caniateir hefyd i unrhyw ryddhadau a roddir drwy'r rheoliadau gael eu hamrywio neu eu tynnu'n ôl drwy reoliadau diwygio. Yn ychwanegol, mae'r adran hon yn mewnosod pŵer newydd ym mhob un o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988 i Weinidogion Cymru i amrywio unrhyw un o'r rhyddhadau a nodir yn yr Atodlenni hynny eu hunain, neu i'w tynnu'n ôl (gweler paragraffau newydd 8C, 2C a 4C o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988, yn y drefn honno).

Adran 6 - Hereditamentau heb eu meddiannu: rhyddhad ardrethi elusennol

20. Mae'r adran hon yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, sy'n rhagnodi achosion pan fo'r swm a godir am ddiwrnod y codir swm ynglŷn ag ef yn sero (rhyddhad llawn) ar gyfer hereditamentau heb eu meddiannu. Mae paragraff 2(2)(a) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn gyfyngedig i Loegr. Mae'n rhagnodi'r achos pan fo'r talwr ardrethi yn sefydliad elusennol ac yr ymddengys y bydd y defnydd nesaf o'r hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol.

21. Mae is-adran (3) yn mewnosod paragraff 2(3) i (8) newydd yn Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988, gan ailddatgan, gyda diwygiadau, yr achosion a ragnodir ym mharagraff 2(2) o ran Cymru. Mae paragraff 2(3) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn rhagnodi'r achos pan fo'r talwr ardrethi yn sefydliad elusennol ac mae'n cynnwys amodau ychwanegol ar gyfer rhyddhadau. Rhaid i'r awdurdod bilio fod wedi ei fodloni mai rheswm yn ymwneud â dibenion elusennol yr elusen yw'r rheswm pam nad yw'r hereditament wedi ei feddiannu, ac y bydd defnydd nesaf yr hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol.

22. Mae paragraff 2(3)(c) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i elusen ddarparu i'r awdurdod bilio gopi o'i chyfrifon diweddaraf a'i hadroddiad blynyddol diweddaraf, os yw'n ofynnol paratoi un o dan adran 162(1) neu 168(3) o Ddeddf Elusennau 2011. Mae paragraffau 2(4), (5) a (7) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn darparu'r diffiniad ar gyfer cyfrifon elusen, gan adlewyrchu'r gofynion gwahanol a osodir ar gwmnïau elusennol, elusennau esempt ac unrhyw elusen arall, fel y'u nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

23. Mae paragraff 2(2)(b) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn gyfyngedig i Loegr. Mae'n rhagnodi'r achos ar gyfer rhyddhad llawn pan oedd y talwr ardrethi yn glwb chwaraeon amatur cymunedol a phan fo'n ymddangos y bydd y defnydd nesaf o'r hereditament yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion y clwb (neu ddau neu ragor o glybiau chwaraeon amatur cymunedol sy'n cynnwys y clwb hwnnw). Mae paragraff 2(8) o Atodlen 4ZB i Ddeddf 1988 yn ailddatgan y ddarpariaeth hon o ran Cymru, ond wedi ei diwygio er mwyn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio fod wedi ei fodloni mewn cysylltiad â'r defnydd nesaf o'r hereditament. Ni fewnosodir unrhyw amodau ychwanegol mewn cysylltiad â'r achos hwn.

Adran 7 - Hysbysiadau cwblhau ar gyfer adeiladau newydd

24. Mae'r adran hon yn ehangu'r diffiniad o adeilad newydd, at ddiben cyflwyno hysbysiad cwblhau gan awdurdod bilio, drwy ddiwygio adran 46A o Ddeddf 1988. Mae adran 46A o Ddeddf 1988 ac Atodlen 4A iddi yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno hysbysiad cwblhau mewn cysylltiad ag adeilad newydd. Mae'n nodi'r diwrnod y mae adeilad newydd i gael ei drin fel pe bai wedi ei gwblhau, gyda'r effaith y gellir wedi hynny ei ychwanegu at y rhestr ardrethu. Mewnosodir is-baragraff newydd (iv), yn adran 46A(6)(b) i gymhwyso'r un weithdrefn i adeilad sydd wedi ei addasu ac sydd, er ei fod yn cynnwys hereditament neu wedi ei gynnwys mewn hereditament a ddangoswyd yn flaenorol mewn rhestr ardrethu, wedi ei dynnu oddi ar y rhestr. Bydd hyn yn gymwys i adeiladau sy'n methu dros dro â bod yn destun meddiannaeth lesiannol wrth i'r addasiadau gael eu gwneud.

Adran 8 – Rhyddhad yn ôl disgresiwn: terfyn amser

25. Mae'r adran hon yn diwygio adran 47 o Ddeddf 1988, sy'n nodi'r sefyllfaoedd lle y caiff awdurdodau bilio ddyfarnu ac amrywio rhyddhad yn ôl disgresiwn rhag ardrethu annomestig. Mae adran 47(7) o Ddeddf 1988, sy'n darparu na all awdurdod bilio wneud penderfyniad i ddyfarnu nac amrywio rhyddhad o'r fath fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol, yn cael ei hepgor. Mewnosodir adran newydd 47(6B), fel bod penderfyniad i ddyfarnu neu amrywio rhyddhad yn ôl disgresiwn mewn cysylltiad â hereditament yn benderfyniad annilys, o ran diwrnod, os yw'r diwrnod yn digwydd cyn 31 Mawrth 2024 a bod y penderfyniad yn cael ei wneud fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r diwrnod yn digwydd ynddi.

26. Yr effaith yw mai blwyddyn ariannol 2023-24 yw'r flwyddyn olaf y bydd y cyfyngiad chwe mis presennol ar ddyfarnu rhyddhad yn ôl disgresiwn ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben yn gymwys. Bydd hyn yn galluogi awdurdodau lleol i benderfynu dyfarnu neu amrywio rhyddhad yn ôl disgresiwn rhag y swm a godir fwy na chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'r penderfyniad yn ymwneud â hi, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2024-25 ymlaen.

Adran 9 - Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl

27. Mae'r adran hon yn diwygio Atodlen 5 i Ddeddf 1988, sy'n darparu ar gyfer esemptiadau rhag ardrethu annomestig. Mewnosodir paragraff newydd 20A newydd (Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl: Cymru) yn Atodlen 5, sy'n darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, roi eithriadau newydd ac amrywio unrhyw eithriadau sydd yn yr Atodlen honno, neu eu tynnu'n ôl. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi cael ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft.)

Adran 10 - Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig

28. Mae Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn darparu ar gyfer cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig o ran Cymru. Mae'r adran hon yn mewnosod Rhan newydd sy'n ailddatgan y darpariaethau a oedd wedi eu cynnwys yn flaenorol yn Rhan 1 ynghyd â darpariaeth newydd sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru osod lluosyddion gwahaniaethol drwy reoliadau. Mae adran 11 yn gwneud darpariaeth atodol.

29. Mae Rhan newydd A2 (Lluosyddion ardrethu annomestig: Cymru) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn cynnwys paragraffau A13 i A20. Mae'r Rhan hon yn nodi fformiwlâu cyffredinol ar gyfer cyfrifo'r lluosydd ardrethu annomestig o ran blynyddoedd ailbrisio a blynyddoedd eraill (gweler paragraffau A14 ac A15). Yn y ddau achos mae'r lluosydd ardrethu annomestig yn parhau i fod yn gysylltiedig â'r mynegai prisiau defnyddwyr ond mae Gweinidogion Cymru yn cadw'r pŵer i gysylltu'r lluosydd â mynegai gwahanol neu newid cyfrifiad y lluosydd fel arall drwy reoliadau (gweler paragraff A18).

30. Pan fo rheoliadau a wneir o dan baragraff newydd A16 (Cyfrifo lluosyddion gwahaniaethol) yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament, mae lluosydd gwahaniaethol a bennir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau yn gymwys mewn cysylltiad â'r hereditament hwnnw. Rhaid i luosyddion o'r fath fod yn gyfran o'r lluosydd am y flwyddyn yn gyffredinol (fel y'i cyfrifir o dan baragraff A14 neu A15, yn ôl y digwydd) ond cânt fod yn fwy na 100% o'r lluosydd hwnnw. Caiff rheoliadau a wneir o dan baragraff A16 bennu lluosyddion gwahaniaethol gwahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o hereditamentau ar y rhestrau lleol neu symiau gwahanol o werth ardrethol a ddangosir yn erbyn enwau personau dynodedig ar y rhestr ganolog. Ni chaniateir gwneud rheoliadau o'r fath oni bai bod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru, a'i gymeradwyo drwy benderfyniad (gweithdrefn gadarnhaol ddrafft).

31. Mae paragraff A17 yn cadw effaith rhyddhad ardrethi gwelliannau yn achos yr hereditamentau hynny y mae'r rhyddhad hwn a lluosydd gwahaniaethol yn gymwys iddynt. Mae'r paragraff hwn hefyd yn nodi'r egwyddor mai'r lluosydd a chanddo'r gwerth isaf (o blith y rhai sy'n gymwys) sydd i'w ddefnyddio ar gyfer cyfrifo'r swm a godir ar gyfer yr hereditament, pan fo mwy nag un lluosydd gwahaniaethol yn gymwys mewn cysylltiad â hereditament.

32. Mae paragraffau A18 i A20 yn ailddatgan y gofynion presennol a osodir ar Weinidogion Cymru o ran gwneud a rhoi hysbysiad o gyfrifiadau'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer blwyddyn ariannol y codir swm ynglŷn â hi (cymhwysir y gofynion hyn hefyd i unrhyw luosyddion gwahaniaethol a ragnodir o dan baragraff A16).

Adran 11 - Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig: darpariaeth atodol

33. Mae adran 11 yn diwygio darpariaethau yn Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988 er mwyn adlewyrchu'r pwerau newydd i Weinidogion Cymru i osod lluosyddion gwahaniaethol (gweler adran 10) yn y fformiwlâu ar gyfer cyfrifo'r swm a godir mewn perthynas â hereditamentau ar y rhestrau lleol a chanolog.

Adran 12 - Yr wybodaeth i'w darparu i'r swyddog prisio

34. Mae'r adran hon yn cymhwyso i Gymru, gyda diwygiadau, y dyletswyddau darparu gwybodaeth a'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig a ddarperir gan baragraffau 4I i 4M, 5ZC i 5ZF a 5BD i 5BF o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Mae'r darpariaethau yn gosod dyletswyddau ar dalwyr ardrethi (neu bersonau a fyddai'n dalwyr ardrethi pe bai eu hereditamentau'n cael eu dangos mewn rhestr ardrethu) i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, system o gosbau am fethu â chydymffurfio, a gweithdrefnau ar gyfer adolygu cosbau ac apelio yn eu herbyn.

35. Mae is-adrannau (2), (3) a (5) yn diwygio paragraffau 4I a 4M(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 er mwyn dileu geiriau sy'n cyfyngu effaith y darpariaethau i Loegr.

36. Mae paragraffau 4I i 4M o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn nodi'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy i Asiantaeth y Swyddfa Brisio:

- Mae paragraff 4I yn darparu bod y dyletswyddau'n gymwys i bersonau sy'n dalwyr ardrethi ar gyfer hereditament (neu a fyddai'n dalwyr ardrethi pe bai'r hereditament yn cael ei ddangos mewn rhestr ardrethu). Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n derbyn rhyddhad o 100% rhag y swm a godir.
- Mae paragraff 4J yn darparu dyletswydd ar y person hwnnw i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy o fewn cyfnod hysbysadwy. Mae gwybodaeth yn hysbysadwy os yw'n ymwneud â hunaniaeth y talwr ardrethi (neu'r sawl a fyddai'n dalwr ardrethi), neu fodolaeth, maint neu werth ardrethol yr hereditament, ond dim ond pe gellid disgwyl yn rhesymol i'r person hwnnw wybod y byddai hynny'n cynorthwyo Asiantaeth y Swyddfa Brisio i gyflawni ei swyddogaethau. Y cyfnod hysbysadwy yw'r cyfnod o fewn 60 o ddiwrnodau i'r newid mewn gwybodaeth hysbysadwy, neu unrhyw gyfnod hirach y gellir ei bennu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio mewn hysbysiad. Mae is-adran (4) yn diwygio paragraff 4J(4) i ddarparu, mewn perthynas â hereditament yng Nghymru, y caniateir i'r cyfnod hysbysadwy hefyd fod yn unrhyw gyfnod hirach a gytunir gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Bydd hyn yn caniatáu i berson ofyn i Asiantaeth y Swyddfa Brisio roi estyniad i'r cyfnod hysbysadwy.
- Mae paragraff 4K yn datgan bod rhaid i'r person baratoi cadarnhad blynyddol, o fewn 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar 30 Ebrill bob blwyddyn, ei fod naill ai wedi darparu gwybodaeth hysbysadwy neu nad oedd yn ofynnol iddo ddarparu gwybodaeth o'r fath.
- Mae paragraff 4L yn darparu i'r wybodaeth gael ei chyflwyno gan ddefnyddio cyfleuster ar-lein a ddarperir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio neu mewn modd arall y cytunir arno.

- Mae paragraff 4M yn ailddatgan pwerau presennol ym mharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, sy'n caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio hefyd ofyn am wybodaeth a fydd yn ei barn hithau yn ei chynorthwyo i gyflawni ei swyddogaethau. Efallai y bydd angen i Asiantaeth y Swyddfa Brisio ofyn am wybodaeth o hyd gan ddefnyddio'r pŵer hwn, gan gynnwys ar gyfer eiddo arbenigol a mathau penodol iawn o wybodaeth.

37. Mae is-adrannau (7) ac (8) yn diwygio paragraffau 5A(1) a 5C(2), yn y drefn honno, o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, i estyn y dyddiad cau i dalwyr ardrethi ymateb i hysbysiad gwybodaeth a ddyroddir gan awdurdodau bilio (o 56 i 60 o ddiwrnodau) ac apelio yn erbyn hysbysiad cosb am fethu â chydymffurfio (o 28 i 30 o ddiwrnodau). Mae'r newidiadau hyn yn cynnal amserlenni cyson ar gyfer darparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio a'r awdurdodau bilio.

38. Mae paragraffau 5ZC i 5ZF o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn nodi system o gosbau am fethiannau i gydymffurfio â'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy:
    - Mae paragraff 5ZC yn darparu ar gyfer y canlynol:
        i. Cosb sifil pan fo person yn methu â chydymffurfio â'r dyletswyddau. Pennir y gosb o dan baragraff 5ZD(1).
        ii. Trosedd pan fo person yn gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth honni ei fod yn cydymffurfio â'r dyletswyddau. Mae person yn agored ar euogfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n fwy na 3 mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol neu i'r ddau. Er mwyn gosod atebolrwydd troseddol, mae'r prawf arferol yn gymwys; rhaid iddi fod y tu hwnt i amheuaeth resymol fod y drosedd wedi ei chyflawni. Fel arall, gellir dal y person yn atebol am gosb sifil am wneud datganiad ffug o'r un natur (er bod rhaid iddi fod y tu hwnt i amheuaeth resymol o hyd bod y drosedd wedi ei chyflawni). Pennir y gosb sifil o dan baragraff 5ZD(2).
        iii. Y trefniadau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb, a chynnwys yr hysbysiadau hynny, pan fo person yn atebol am gosb sifil. Rhaid talu cosb o fewn 30 o ddiwrnodau i ddyddiad yr hysbysiad cosb (oni bai bod y cyfnod hwn yn cael ei estyn gan yr amser a gymerir i gwblhau unrhyw adolygiad neu apêl). Os cyflwynir hysbysiad cosb sifil i berson mewn cysylltiad â gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid, ni chaniateir cychwyn achos troseddol am yr un drosedd cyn y dyddiad cau ar gyfer talu'r gosb. Os caiff yr atebolrwydd hwnnw ei ryddhau, yna ni all unrhyw achos troseddol nac euogfarn ddilyn ac ni ellir cyflwyno hysbysiad cosb arall, mewn perthynas â gwneud y datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid. Os yw person yn ei ryddhau ei hun rhag atebolrwydd sy'n codi o hysbysiad cosb am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau hysbysu ac wedi hynny yn cael ei euogfarnu o drosedd neu yn cael hysbysiad cosb arall wedi ei gyflwyno iddo mewn cysylltiad â datganiad ffug, yna rhaid i'r ddedfryd neu swm y gosb adlewyrchu swm y gosb a ryddhawyd eisoes.
    - Mae paragraff 5ZD yn darparu ar gyfer lefel cosb sifil:
        i. Pan fo'r person wedi methu â chydymffurfio â gofyniad hysbysu, y gosb uchaf yw 2% o'r gwerth ardrethol perthnasol neu £900, pa un bynnag yw'r mwyaf.

ii. Pan fo'r person wedi gwneud datganiad ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid wrth honni ei fod yn cydymffurfio â gofyniad hysbysu, y gosb uchaf yw cyfanswm 3% o'r gwerth ardrethol perthnasol a £500.

iii. Pan fo'r person yn atebol am fethu â chydymffurfio â gofyniad hysbysu, byddai'n agored i gosb bellach o £60 y dydd pe bai'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad o fewn 30 o ddiwrnodau i gael hysbysiad cosb cysylltiedig. Ni chaiff cyfanswm yr atebolrwydd am gosbau dyddiol pellach fod yn fwy na £1,800.

- Mae paragraff 5ZE yn darparu ar gyfer pennu gwerthoedd ardrethol, at ddibenion cyfrifo cosbau pan fo mater sy'n effeithio ar y gwerth ardrethol wedi newid rhwng y diwrnod y dylai'r wybodaeth hysbysadwy fod wedi ei darparu a diwrnod yr hysbysiad cosb. Mae'r darpariaethau hyn yn sicrhau nad yw'r gosb yn cael ei chynyddu na'i lleihau oherwydd newidiadau i'r hereditament ar ôl i'r atebolrwydd i'r gosb godi gyntaf.
- Mae paragraff 5ZF yn darparu y caiff y swyddog prisio liniaru neu ddileu unrhyw un o'r cosbau uchod. Bydd hyn yn caniatáu i Asiantaeth y Swyddfa Brisio weithredu'r dyletswyddau a'r cosbau yn deg a chyda sylw dyladwy i amgylchiadau unigol.

39. Mae paragraffau 5BD i 5BF o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 yn nodi'r gweithdrefnau ar gyfer adolygu ac apelio yn erbyn cosbau am fethu â chydymffurfio â'r dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth hysbysadwy:

- Mae paragraff 5BD yn rhoi 30 o ddiwrnodau i berson i ofyn am adolygiad o hysbysiad cosb. Mae'r adolygiad yn cael ei wneud gan swyddog adolygu o Asiantaeth y Swyddfa Brisio, sy'n swyddog gwahanol i'r un a osododd y gosb. Mae natur a maint yr adolygiad yn unol â'r hyn a ymddengys yn briodol i'r swyddog adolygu. Rhaid cwblhau'r adolygiad o fewn 45 o ddiwrnodau, neu fel arall trinnir y gosb fel pe bai wedi ei chadarnhau.
- Mae paragraff 5BE yn darparu ar gyfer yr hawl i apelio i'r tribiwnlys prisio yn erbyn casgliadau'r adolygiad, o fewn 30 o ddiwrnodau i'r hysbysiad (neu'r hysbysiad tybiedig) ynghylch casgliadau'r adolygiad.
- Mae paragraff 5BF yn estyn y cyfnod ar gyfer talu cosb ac yn darparu nad yw achosion o adolygiad neu apêl yn atal rhoi cosb arall, pan fo'r person yn parhau i fethu â chydymffurfio â'r gofyniad hysbysu. Mae hefyd yn sicrhau y byddai adolygiad neu apêl yn ystyried unrhyw gosb ddyddiol a osodir o dan baragraff 5ZD(3) yn ychwanegol at y gosb a osodir o dan baragraff 5ZC(1).

40. Mae is-adran (6) yn mewnosod is-baragraff newydd (4A) ym mharagraff 5ZC o Ddeddf 1988, i ddarparu bod rhaid i hysbysiad cosb a gyflwynir mewn perthynas â hereditament yng Nghymru gynnwys esboniad o effaith paragraff 5BD(9). O ganlyniad, bydd yr hysbysiad yn egluro y dylid trin y gosb fel pe bai wedi ei chadarnhau, pe bai'r person yn gofyn am adolygiad, os nad yw'r swyddog adolygu wedi rhoi hysbysiad o'i benderfyniad o fewn 45 o ddiwrnodau. Bwriad hyn yw sicrhau ei bod yn eglur i'r person pryd y bydd y cyfnod o 30 o ddiwrnodau, y caniateir apelio yn erbyn yr hysbysiad cosb yn ystod y cyfnod hwnnw, yn dechrau.

Adran 13 – Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethu annomestig

41. Mae'r adran hon yn mewnosod adrannau 63F i 63M (Gwrthweithio osgoi trethi: Cymru) yn Neddf 1988. Maent yn gwneud darpariaeth ynghylch gwrthweithio manteision sy'n deillio o drefniadau artiffisial i osgoi atebolrwydd am dalu ardrethi annomestig.

42. At ddibenion adrannau 63F i 63M, mae i drefniant artiffisial i osgoi ardrethu annomestig yr ystyr a roddir yn adrannau 63F i 63H.

43. O ran y cysyniad allweddol o artiffisial ("artificial"), mae adran 63H o Ddeddf 1988 yn darparu bod trefniant yn artiffisial os yw o fath sy'n cael ei bennu gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau (a, phan fo Gweinidogion wedi gwneud darpariaeth ar gyfer hyn o dan is-adran (3), na phennwyd i'r gwrthwyneb). Dim ond os na fyddai gwneud trefniant o'r fath yn gam rhesymol mewn perthynas â darpariaethau deddfwriaethol ar gyfer ardrethu annomestig, ar ôl ystyried yn benodol y materion a restrir ym mharagraffau (a), (b) ac (c) o is-adran (2), y caiff Gweinidogion Cymru bennu bod math o drefniant yn artiffisial. Mae'r materion hyn yn ymdrin â thechnegau sydd wedi eu cynllunio i fanteisio ar 'fylchau' canfyddedig yn y ddeddfwriaeth i sicrhau'r fantais.

44. Bydd rheoliadau a wneir o dan adran 63H(1)(a) o Ddeddf 1988 yn disgrifio'r technegau neu'r ymddygiadau osgoi penodol y bydd y broses a nodir yn yr adrannau canlynol yn mynd i'r afael â hwy. Caiff y rheoliadau hefyd (gweler adran 63H(3)), ddarparu nad yw trefniant penodedig yn artiffisial mewn achos penodol os gwneir penderfyniad i'r perwyl hwnnw gan yr awdurdod bilio perthnasol neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd), wedi ystyried yr holl amgylchiadau. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru, pan fyddant yn gwneud y rheoliadau, i nodi mathau o drefniant y mae'n bosibl nad ydynt yn artiffisial ym mhob achos ac, ar gyfer y mathau hynny o drefniant, i roi disgresiwn i awdurdodau bilio (neu Weinidogion Cymru yn ôl y digwydd) i benderfynu, yn yr amgylchiadau penodol, nad yw'r math hwnnw o drefniant yn artiffisial.

45. Mae adrannau 63I (Atebolrwydd am ardrethi annomestig: rhestrau lleol) a 63J (Atebolrwydd am ardrethi annomestig: rhestrau canolog) yn darparu ar gyfer cymhwyso'r darpariaethau gwrthweithio osgoi gan awdurdodau bilio a Gweinidogion Cymru, mewn perthynas â hereditamentau a ddangosir mewn rhestr ardrethu leol neu ganolog, yn y drefn honno. Pan fo trefniant artiffisial i osgoi wedi ei wneud mewn perthynas â hereditament, rhaid i'r awdurdod bilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) drin y talwr ardrethi (neu berson arall os mai'r person hwnnw a fyddai wedi bod y talwr ardrethi yn absenoldeb y trefniant) fel pe bai'n atebol am dalu'r swm a godir a fyddai wedi bod yn gymwys i'r hereditament yn absenoldeb y trefniant. Mae hyn yn cael yr effaith, pan fo ymddygiad osgoi penodedig yn parhau ar ôl i reoliadau gael eu gwneud, y bydd yn ofynnol i'r person dalu'r diffyg mewn atebolrwydd ers yr hwyraf o'r canlynol: y diwrnod y gwneir y trefniant; y diwrnod y daw'r rheoliadau i rym; neu ddiwrnod a bennir yn y rheoliadau.

46. Mae adran 63K (Atebolrwydd am ardrethu annomestig: hysbysu) o Ddeddf 1988 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio neu Weinidogion Cymru (yn ôl y digwydd) gyflwyno hysbysiad i'r person sydd i gael ei drin fel pe bai'n atebol pan fo trefniant osgoi trethi artiffisial wedi ei nodi, ac yn galluogi'r person i ofyn i'r hysbysiad gael ei adolygu. Bydd yr awdurdod bilio (neu Weinidogion Cymru) naill ai'n cadarnhau'r hysbysiad neu'n ei dynnu'n ôl (os tynnir yr hysbysiad yn ôl ystyrir nad yw'r trefniant a oedd yn destun yr hysbysiad yn drefniant artiffisial i osgoi ardrethi annomestig).

47. Mae adran 63L (Apelau i'r tribiwnlys prisio) yn galluogi person i apelio yn erbyn hysbysiad a gadarnheir yn dilyn adolygiad. Caiff y tribiwnlys gadarnhau'r hysbysiad neu ofyn iddo gael ei dynnu'n ôl.

48. Mae adran 63M (Cosbau) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau'n darparu ar gyfer gosod cosb ariannol pan fo person yr ymdrinnir ag ef fel pe bai'n atebol am dalu ardreth ym methu â thalu swm sy'n ddyledus.

Adran 14 - Gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988

49. Mae'r adran hon yn mewnosod adran newydd 143A (Gorchmynion a rheoliadau Gweinidogion Cymru) yn Neddf 1988. Mae adran 143A yn ailddatgan adran 143 o Ddeddf 1988, i nodi sut y mae pwerau a roddir i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 1988 i gael eu harfer a'r weithdrefn berthnasol sydd i'w dilyn.

50. Bydd pwerau a roddir i unrhyw bersonau eraill i wneud is-ddeddfwriaeth a all fod yn gymwys i Gymru yn parhau i gael eu harfer yn unol ag adran 143 o Ddeddf 1988. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, y pwerau a roddwyd i Gomisiynwyr Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi gan baragraffau 4F(2), 4G, 5F(1A) a 5FA(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988, mewn perthynas â'r gofynion darparu gwybodaeth perthnasol.

Adran 15 – Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol yn ymwneud â Rhan 1

51. Mae'r adran hon yn cyflwyno'r Atodlen, sy'n gwneud newidiadau canlyniadol ar adrannau 2, 3, 4, 8, 9, 10, 12, 13 a 14.

52. Mae Rhan 1 (paragraffau 1 i 5) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adrannau 2 i 4 (Rhestrau ardrethu). Mae paragraff 1 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf 1988. Mae nifer o'r diwygiadau yn newid cyfeiriadau at "Secretary of State" yn "appropriate national authority", pan fo'r ddarpariaeth berthnasol yn gymwys i Gymru a Lloegr. Pan fo darpariaethau'n gymwys i Gymru yn unig, mae cyfeiriadau at "Secretary of State" yn cael eu newid yn "Welsh Ministers". Mae'r diwygiadau hyn yn adlewyrchu'r trosglwyddiad swyddogaethau a gafodd effaith yn rhinwedd erthygl 2(1) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. Mae adran newydd 67(12A) o Ddeddf 1988 yn diffinio "the appropriate national authority", gan ailddatgan y diffiniadau (sy'n cael eu hepgor) o Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A.

53. Mae paragraff 1(2) ac (8) yn hepgor adrannau 41A a 54A o Ddeddf 1988. Mae'r adrannau hyn wedi eu disbyddu a rhoddir cyfrif am eu heffeithiau mewn darpariaethau a gyflwynir gan y Ddeddf hon.

54. Mae paragraff 1(9)(a) yn ailddatgan adran 55(1) o Ddeddf 1988 o ran Cymru drwy fewnosod adran newydd 55(1A). Mae'r ailddatganiad yn ystyried y darpariaethau a gyflwynir gan y Ddeddf hon.

55. Mae paragraff 1(9)(c) a (d) yn diwygio adran 55(7A) o Ddeddf 1988 fel ei bod yn gymwys o ran Lloegr yn unig ac yn ailddatgan ei heffaith o ran Cymru yn adran newydd 55(7AA). Mae'r ailddatganiad yn ystyried y darpariaethau a gyflwynir gan y Ddeddf hon.

56. Mae paragraff 1(10)(d) yn diwygio adran 58(10)(a) o Ddeddf 1988 i adlewyrchu'r newid yn y cyfnod rhwng blynyddoedd ailbrisio a ddarperir gan y Ddeddf hon.

57. Mae paragraff 1(23)(c) yn diwygio paragraff 8 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig. Mae paragraff 1(23)(d) yn mewnosod paragraff newydd 8A yn Atodlen 9, sy'n ailddatgan paragraff 8 o ran Cymru, gan ystyried y darpariaethau a gyflwynir gan y Ddeddf hon.

58. Mae paragraff 2 yn hepgor adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a pharagraffau 84 a 86 o Atodlen 16 iddi, a oedd yn mewnosod adran 41A o Ddeddf 1988 (a hepgorir gan y Ddeddf hon) a diwygiadau canlyniadol ar yr adran honno, yn y drefn honno.

59. Mae paragraff 3 yn diwygio adran 30(2) o Ddeddf Taliadau Atodol Ardrethi Busnes 2009 i gynnwys cyfeiriad at restrau ardrethu annomestig lleol ar gyfer Cymru a lunnir o dan adran 41ZA(1) newydd o Ddeddf 1988.

60. Mae paragraff 4 yn hepgor adran 30 o Ddeddf Twf a Seilwaith 2013, a oedd yn mewnosod adran 54A o Ddeddf 1988 (a hepgorir gan y Ddeddf hon).

61. Mae paragraff 5 yn hepgor adran 1(4) o Ddeddf Ardrethu Annomestig (Rhestrau) 2021, a oedd yn diwygio adran 54A o Ddeddf 1988 (a hepgorir gan y Ddeddf hon).

62. Mae Rhan 2 (paragraffau 6 a 7) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 8 (Rhyddhad yn ôl disgresiwn: terfyn amser). Mae paragraff 6 yn hepgor paragraff 23 o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Ardrethu 1997, gan fod y diwygiad i Ddeddf 1988 yr oedd yn darparu ar ei gyfer wedi ei hepgor gan y Ddeddf hon. Mae paragraff 7 yn hepgor adran 4(3) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, gan fod yr adran o Ddeddf 1988 yr oedd yn ei diwygio o ran Cymru wedi ei hepgor gan y Ddeddf hon.

63. Mae Rhan 3 (paragraff 8) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 9 (Pwerau i roi ac amrywio esemptiad, a'i dynnu'n ôl). Mae paragraff 8 yn diwygio paragraff 20 o Atodlen 5 i Ddeddf 1988 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig.

64. Mae Rhan 4 (paragraffau 9 i 12) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 10 (Cyfrifo lluosyddion ardrethu annomestig). Mae paragraffau 9(2) i (4) yn diwygio darpariaethau penodedig o fewn Atodlenni 4ZA, 4ZB a 5A i Ddeddf 1988 fel eu bod yn gymwys o ran Lloegr yn unig, gan fod y Ddeddf hon yn ailddatgan darpariaethau cyfatebol ar gyfer Cymru. Mae paragraff 9(5) yn hepgor Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, gan ei bod yn cael ei hailddatgan gan y Ddeddf hon.

65. Mae paragraff 10 yn hepgor adran 62(2) i (10) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a oedd yn diwygio darpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n cael eu hepgor gan y Ddeddf hon.

66. Mae paragraff 11 yn hepgor adran 154(2) a (3)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Roedd adran 154(2) yn diwygio darpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n cael eu hepgor gan y Ddeddf hon. Mewnosododd adran 154(3)(a) gyfeiriad at Weinidogion Cymru yn adran 143(2) o Ddeddf 1988, ac mae'r cyfeiriad hwnnw yn cael ei ddileu gan y Ddeddf hon.

67. Mae paragraff 12 yn hepgor adran 15(3) a (4) o Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, a oedd yn diwygio darpariaethau yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 sy'n cael eu hepgor gan y Ddeddf hon.

68. Mae Rhan 5 (paragraffau 13 i 17) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 12 (Yr wybodaeth i'w darparu i'r swyddog prisio). Mae paragraff 13(2)(a), (b), (d) i (f), a (i) i (k) yn diwygio paragraffau 5, 5A, 5B, 5C a 5D o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 o ran darparu gwybodaeth i swyddogion prisio, er mwyn hepgor hynny o'u cwmpas. Mae'r paragraffau diwygiedig yn parhau i ymdrin â darparu gwybodaeth i awdurdod bilio yng Nghymru a'r gyfundrefn gosbi gysylltiedig.

69. Mae paragraff 13(2)(c) a (g) yn diwygio'r penawdau o flaen paragraffau 5ZC a 5BD o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 er mwyn dangos bod y gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio, a'r gyfundrefn gydymffurfio gysylltiedig, yn gymwys i Gymru.

70. Mae paragraff 13(2)(h) yn amnewid paragraff 5BE(4) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 i gynnwys cyfeiriad sy'n gymwys i Gymru yn y diffiniad o "valuation tribunal", mewn cysylltiad ag apelau yn erbyn hysbysiad cosb am fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio.

71. Mae paragraff 13(2)(l) yn diwygio paragraff 5E(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 fel ei fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig, ac yn mewnosod paragraff newydd 5E(1A) o ran Cymru. Mae hyn yn darparu bod unrhyw symiau a dderbynnir gan swyddog prisio drwy gosb o dan y gofynion darparu gwybodaeth o ran Cymru yn cael eu talu i Gronfa Gyfunol Cymru.

72. Mae paragraff 13(2)(o) yn diwygio paragraff 5H o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 fel nad yw'n cyfeirio ond at baragraffau sy'n berthnasol i ddarparu gwybodaeth i Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (gan gynnwys swyddog prisio). Mae cyfeiriadau at baragraffau 5 a 5A, a ddiwygir gan y Ddeddf hon fel nad ydynt ond yn ymdrin â darparu gwybodaeth i awdurdodau bilio yng Nghymru, yn cael eu heithrio.

73. Mae paragraff 13(3)(a) yn diwygio paragraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988 i gynnwys paragraffau 5BB a 5BE o Atodlen 9 o fewn awdurdodaeth tribiwnlysoedd prisio yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau y gall Tribiwnlys Prisio Cymru ymdrin ag apelau yn erbyn hysbysiadau cosb am fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ddarparu gwybodaeth i swyddogion prisio a swyddogion Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi a gymhwysir i Gymru gan y Ddeddf hon.

74. Mae paragraff 13(3)(b) ac (c) yn mewnosod paragraff newydd 11(1A) yn Atodlen 11 i Ddeddf 1988 er mwyn caniatáu i reoliadau bennu y caniateir gwneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn dilyn penderfyniad neu orchymyn gan dribiwnlys prisio ynglŷn ag apêl o dan baragraff 5BB, 5BE, 5C neu 6AA o Atodlen 9 i Ddeddf 1988. Mae'r paragraffau hynny yn ymwneud â chydymffurfio â dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth i Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi ac awdurdodau lleol.

75. Mae paragraff 14 yn hepgor paragraff 46 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, a oedd yn diwygio darpariaethau ym mharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a hepgorir gan y Ddeddf hon.

76. Mae paragraff 15 yn hepgor adran 72(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, a oedd yn diwygio darpariaethau ym mharagraff 5 o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a hepgorir gan y Ddeddf hon.

77. Mae paragraff 16 yn hepgor adran 151(2)(a), (c) ac (e), (3)(b)(i) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn diwygio darpariaethau ym mharagraffau 5, 5A a 5D(1) o Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a ddiwygir ymhellach neu a hepgorir gan y Ddeddf hon.

78. Mae paragraff 17 yn hepgor paragraffau 42, 48 a 53(b) o'r Atodlen i Ddeddf Ardrethu Annomestig 2023, a oedd yn diwygio darpariaethau yn Atodlen 9 i Ddeddf 1988 a hepgorir neu a ddiwygir ymhellach gan y Ddeddf hon.

79. Mae Rhan 6 (paragraff 18) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 13 (Trefniadau artiffisial i osgoi ardrethu annomestig). Mae paragraff 18(2)(a) yn mewnosod is-baragraff (ba) ym mharagraff 2 o Atodlen 11 i Ddeddf 1988, i gynnwys apelau o dan adran 63L o fewn awdurdodaeth unrhyw dribiwnlys a sefydlir o ran Cymru drwy reoliadau a wneir o dan baragraff 1 o'r Atodlen honno. Mae paragraff 18(2)(b) yn mewnosod cyfeiriad at adran 63L o Ddeddf 1988 ym mharagraff 11(1A) o Atodlen 11 i Ddeddf 1988 (fel y'i mewnosodir gan baragraff 13(3)(b) o'r Atodlen i'r Ddeddf hon), er mwyn caniatáu i reoliadau bennu y caniateir gwneud apêl i'r Uwch Dribiwnlys yn dilyn penderfyniad neu orchymyn gan dribiwnlys prisio ynglŷn ag apêl o dan adran 63L.

80. Mae Rhan 7 (paragraffau 19 i 21) o'r Atodlen yn gwneud diwygiadau sy'n ymwneud ag adran 14 (Gorchmynion a rheoliadau o dan Ddeddf 1988). Mae paragraff 15 yn diwygio Deddf 1988 mewn sawl man i gynnwys neu amnewid cyfeiriadau at bwerau Gweinidogion Cymru o dan adran newydd 143A, a fewnosodir gan y Ddeddf hon. Diwygir adran 143 o Ddeddf 1988 fel nad yw'n ymdrin ond â phwerau nad ydynt yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru, gan gynnwys y rhai y gellir eu harfer o ran Cymru.

81. Mae paragraff 20 yn hepgor adran 84(4)(a) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, a wnaeth ddiwygiad i adran 143(3) o Ddeddf 1988 sy'n cael ei wrthweithio gan y Ddeddf hon.

82. Mae paragraff 21 yn hepgor adrannau 151(10) a 152(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a oedd yn mewnosod adran 143(9AZA) a (9AB) (a hepgorir gan y Ddeddf hon).

RHAN 2 – Y DRETH GYNGOR

Adran 16 – Trosolwg o Ran 2

83. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r adrannau yn Rhan 2.

Adran 17 – Cyfrifo'r dreth ar gyfer bandiau prisio gwahanol

84. Mae'r adran hon yn diwygio adran 5 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Deddf 1992") drwy fewnosod is-adrannau newydd (4B) a (4C). Mae adran 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gosod y symiau o dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag annedd drwy gyfeirio at fandiau'r dreth gyngor, yn unol â chyfrannau a neilltuir i bob band (yng Nghymru) gan is-adran (1A). Mae adrannau 36 a 47 o Ddeddf 1992 yn darparu bod y swm sy'n daladwy ar gyfer pob band i'w gyfrifo drwy gymhwyso fformiwla sy'n cynnwys y gyfran berthnasol ar gyfer y band hwnnw, fel y'i rhennir â "D".

85. Cyn y diwygiad, mae ystyr y llythyren "D" yn y ddwy fformiwla wedi ei osod fel y gyfran ar gyfer Band D.

86. Ar ôl y diwygiad, mae is-adran newydd (4B) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i newid y band prisio y cyfeirir ato yn yr ystyr a roddir i "D" gan adrannau 36 a 47. Mae is-adran newydd (4B) hefyd yn ailddatgan, ar gyfer Gweinidogion Cymru, y pwerau presennol o dan is-adran (4) i amnewid cyfran arall mewn perthynas ag is-adran (1A), a bandiau prisio eraill mewn perthynas ag is-adran (3) (sy'n cynnwys y rhestr o fandiau prisio ar gyfer anheddau yng Nghymru). Ac mae is-adran newydd (4C) yn ailadrodd, ar gyfer is-adran newydd (4B), yr eglurhad cyfatebol, mewn cysylltiad ag is-adran (4)(b), yn is-adran (4A).

Adran 18 – Disgowntiau

87. Mae'r adran hon yn datgymhwyso darpariaethau presennol yn Neddf 1992 ynghylch disgowntiau i'r dreth gyngor mewn perthynas ag anheddau trethadwy yng Nghymru, ac mae'n mewnosod darpariaeth newydd ynghylch disgowntiau o'r fath sy'n gymwys o ran Cymru yn unig.

88. Mae adrannau 6 a 9 o Ddeddf 1992 yn cynnwys darpariaeth ynghylch atebolrwydd am dalu'r dreth gyngor o dan wahanol amgylchiadau. Mae adran 18(2) a (3) yn diwygio'r adrannau hyn i'r graddau y maent yn darparu ar gyfer diystyru personau penodol at ddibenion penderfynu pwy sy'n atebol pan fyddai'r personau hynny fel arall yn atebol ar y cyd ac yn unigol. O dan adrannau 6 a 9 fel y'u diwygir gan adran (18)(2) a (3), diystyrir personau at y dibenion hyn os ydynt yn cael eu diystyru at ddibenion disgownt mewn perthynas ag annedd yng Nghymru o dan adran newydd 11E(5) (gweler isod) ac os ydynt yn cael eu cynnwys mewn disgrifiad a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau. Mae adran 18(4) yn diwygio adran 11 o Ddeddf 1992 fel ei bod yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig, ac mae adran 18(5) yn mewnosod adran 11E newydd sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer disgowntiau mewn perthynas â Chymru.

89. Mae adran 11E(1) yn darparu pwerau ar gyfer Gweinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau swm y disgownt y gall annedd drethadwy fod yn ddarostyngedig iddo (neu'r dull ar gyfer cyfrifo'r swm hwnnw) pan fo naill ai'r meini prawf a nodir yn adran 11E(2), neu feini prawf eraill a nodir gan reoliadau o dan 11E(3), yn cael eu bodloni mewn cysylltiad â'r annedd honno. Mae adran 11E(4) yn egluro y caiff y rheoliadau o dan adran 11E(1) ragnodi swm gwahanol o ddisgownt (neu ddarpariaeth wahanol ar gyfer cyfrifo swm disgownt) mewn perthynas â meini prawf gwahanol. Mae hefyd yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer i wneud darpariaeth ynghylch swm y dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas ag annedd y mae mwy nag un disgownt yn gymwys mewn cysylltiad â hi.

90. Mae'r meini prawf a nodir yn adran 11E(2)(a) yn cyfateb i'r rhai a nodir yn adran 11(1) a (2)(b) o Ddeddf 1992, ond mae adran 11E(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu drwy reoliadau ar gyfer amodau neu feini prawf eraill y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn i swm y dreth gyngor sy'n daladwy ar annedd drethadwy fod yn ddarostyngedig i ddisgownt o dan adran 11E(1). Mae adran 11E(6) yn darparu y caniateir rhagnodi'r amodau neu'r meini prawf hyn, a hefyd unrhyw amodau neu feini prawf a ragnodir o dan adran 11E(3), drwy gyfeirio at:

- y math o anheddau neu eu nodweddion ffisegol, neu faterion eraill sy'n ymwneud ag anheddau;
- amgylchiadau unrhyw berson sy'n atebol am dalu swm y dreth gyngor dan sylw, neu faterion eraill sy'n ymwneud â'r person hwnnw.

91. Mae adran 11E(5) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i ragnodi drwy reoliadau pwy sy'n cael eu diystyru at ddibenion y disgowntiau a nodir yn adran 11E(2) o Ddeddf 1992. Mae'r pŵer hwn yn disodli'r pŵer yn adran 11(5) o Ddeddf 1992 a fydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr yn unig.

92. Mae adran 18(5) hefyd yn mewnosod adran 11F newydd yn Neddf 1992. Mae'r adran hon yn disodli adran 12 o Ddeddf 1992, sy'n cael ei hepgor gan adran 18(6). O dan adran 11F(1) a (3), caiff Gweinidogion Cymru, mewn cysylltiad â blwyddyn ariannol, ragnodi dosbarthau o anheddau y mae disgownt o dan adran 11E yn gymwys iddynt drwy gyfeirio at:

- y math o anheddau neu eu nodweddion ffisegol, neu faterion eraill sy'n ymwneud ag anheddau;
- amgylchiadau unrhyw berson sy'n atebol am dalu swm y dreth gyngor dan sylw, neu faterion eraill sy'n ymwneud â'r person hwnnw.

93. O dan adran 11F(2), ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol y mae dosbarth o anheddau o'r fath yn cael ei ragnodi mewn cysylltiad â hi, caiff awdurdod bilio benderfynu datgymhwyso neu leihau'r disgownt o dan sylw mewn perthynas ag anheddau yn ei ardal (neu ran o'i ardal a bennir gan yr awdurdod).

94. Mae adran 11F(4) i (7) yn gwneud darpariaeth atodol, gan gynnwys gofyniad i unrhyw benderfyniad a wneir gan awdurdod o dan yr adran hon gael ei gyhoeddi'n electronig.

95. Mae adran 12A ac adran 12B o Ddeddf 1992 yn rhoi pwerau yn ôl eu disgresiwn i awdurdodau bilio i godi symiau uwch o'r dreth gyngor yn achos anheddau gwag hirdymor ac anheddau a feddiennir yn gyfnodol.

96. Mae adran 18(7) yn diwygio adran 12A o Ddeddf 1992, sy'n gwneud darpariaeth i awdurdodau bilio bennu bod swm y dreth gyngor sy'n daladwy yn cael ei gynyddu hyd at 300 y cant. Fel y'i diwygiwyd, ni fydd adran 12A bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod bilio ddatgymhwyso'r disgownt pan nad oes preswylydd yn yr annedd fel rhan o'i benderfyniad i gynyddu'r dreth gyngor o dan adran 12A (oherwydd bod y disgownt pan nad oes preswylydd yn yr annedd wedi cael ei ddiddymu yng Nghymru). Yn hytrach, mae adran 12A yn cael ei diwygio fel bod rhaid i'r awdurdod gyfrifo swm y dreth gyngor sy'n daladwy drwy, yn gyntaf, ychwanegu'r cynnydd ar ffurf canran, ac wedyn tynnu unrhyw ddisgownt sy'n gymwys (gweler adran 12A(1)). Bydd disgownt ym gymwys at y dibenion hyn os yw wedi cael ei ragnodi gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir yn unol ag adran 11E(3), ac nad yw wedi cael ei ddatgymhwyso gan yr awdurdod bilio o dan adran 11F(2)(a). Swm y disgownt y mae'r awdurdod bilio yn ei dynnu fydd swm y disgownt a ragnodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 11E(1) neu, os yw'n llai, y swm a bennir gan yr awdurdod bilio o dan adran 11F(2)(b). Mae adran 18(8) yn gwneud yr un diwygiad i adran 12B o Ddeddf 1992 mewn perthynas ag anheddau a feddiennir yn gyfnodol.

97. Mae is-adrannau (9) i (11) yn gwneud diwygiadau canlyniadol i ddarpariaethau eraill yn Neddf 1992.

Adran 19 – Symiau gostyngedig

98. Mae adran 19(2) o'r Ddeddf yn diwygio adran 13 o Ddeddf 1992, o ran pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi o dan ba amodau ac amgylchiadau y mae person yn gymwys ar gyfer gostyngiad i'r dreth gyngor, drwy ei newid yn ddyletswydd i wneud rheoliadau o'r fath.

99. Mae adran 19 hefyd yn dileu pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan adran 13A o Ddeddf 1992 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bilio wneud cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor, ac yn gwneud amryw ddiwygiadau canlyniadol – gan gynnwys hepgor Atodlen 1B i Ddeddf 1992, a oedd yn gwneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor yn unol â rheoliadau o dan adran 13A.

100. Mae adran 19(6) yn diwygio adran 66(2) o Ddeddf 1992, sy'n rhestru materion yn y Ddeddf honno na chaniateir eu cwestiynu ond drwy adolygiad barnwrol, drwy ychwanegu materion mewn rheoliadau a wneir o dan adran 13 at y rhestr hon.

Adran 20 - Y weithdrefn ar gyfer llunio rhestrau prisio

101. Mae'r adran hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer llunio rhestrau prisio newydd bob pum mlynedd ar gyfer y dreth gyngor, gan ddechrau yn 2028 , drwy ddiwygio adran 22B o Ddeddf 1992.

102. Cyn y diwygiad, caiff Gweinidogion Cymru bennu, drwy orchymyn, y flwyddyn y mae rhestr brisio treth gyngor newydd i gael ei llunio. Nid oes gofyniad i lunio rhestr newydd ar gyfnodau rheolaidd.

103. Diwygir adran 22B(3) o Ddeddf 1992 fel na all Gweinidogion Cymru ond arfer eu pŵer i wneud gorchymyn i bennu blwyddyn heb fod yn hwyrach na 2027 . Mae adran 20(1)(b) o'r Ddeddf yn mewnosod is-adrannau newydd (3A) i (3C) yn adran 22B. Mae'r rhain yn nodi'r trefniadau newydd ar gyfer llunio rhestrau prisio'r dreth gyngor ar ôl 2029:

- mae adran 22B(3A) yn darparu bod rhaid i swyddog rhestru mewn awdurdod bilio yng Nghymru lunio rhestr newydd ar 1 Ebrill yn y flwyddyn ailbrisio;
- mae adran 22B(3B) yn pennu 2028 a phob pumed flwyddyn wedyn yn flwyddyn ailbrisio;
- mae adran 22B(3C) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru drwy orchymyn i ddiwygio blwyddyn ailbrisio, neu'r cyfnod rhwng blynyddoedd prisio.

104. Mae adran 20(1)(d) o'r Ddeddf yn mewnosod is-adran (7A) yn adran 22B o Ddeddf 1992. Mae hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, mewn gorchymyn, y dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i swyddogion rhestru anfon copi o'r rhestr brisio arfaethedig at eu hawdurdodau bilio. Os na fydd Gweinidogion Cymru yn gwneud gorchymyn o'r fath, y dyddiad cau fydd 1 Medi cyn y dyddiad y mae'r rhestr i gael ei llunio arno.

105. Mae adran 20(1)(e), (f) ac (g) yn newid y system o adneuo rhestrau prisio yng Nghymru, ar gyfer rhestrau yn y dyfodol, drwy ddatgymhwyso adran 22B(10) o Ddeddf 1992 a mewnosod is-adrannau newydd (8) a (10A). Ar ôl y diwygiad, rhaid i awdurdod bilio yng Nghymru:

- gadw, yn electronig, gopi o restr a gynigir gan swyddog prisio a chymryd camau i roi hysbysiad ohoni;
- adneuo, yn ei brif swyddfa, gopi o restr a lunnir o dan adran 22B(3);
- cadw, yn electronig, gopi o restr a lunnir o dan adran 22B(3A).

106. Mae is-adran (10) o adran 22B o Ddeddf 1992 yn parhau i gael effaith ar ôl y diwygiad mewn perthynas ag unrhyw restr ar gyfer Cymru a adneuwyd cyn i adran 19 ddod i rym (yn sgil adrannau 34 a 37 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019). Mae hyn yn golygu bod cyfeiriadau at restr a adneuwyd o dan is-adran (10) ("a list deposited under subsection (10)") sy'n ymddangos mewn lleoedd eraill yn Neddf 1992 (er enghraifft, yn adran 24(9)) yn parhau i gynnwys rhestrau ar gyfer Cymru a adneuwyd yn flaenorol o dan yr is-adran honno.

RHAN 3 - CYFFREDINOL

Adran 21 – Dehongli

107. Mae'r adran hon yn diffinio cyfeiriadau at y Deddfau sy'n cael eu diwygio gan y Ddeddf.

Adran 22 – Darpariaeth ganlyniadol a throsiannol

108. Mae'r adran hon yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud darpariaethau deilliadol, atodol, canlyniadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn perthynas â'r darpariaethau sydd wedi eu cynnwys yn y Ddeddf hon.

Adran 23 – Dod i rym

109. Mae'r adran hon yn nodi sut y bydd darpariaethau'r Ddeddf hon yn dod i rym. Daw adrannau 1, 16, 21, 22 a 24 a pharagraff 13(3)(b) o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraff 13(3)(b)) i rym drannoeth y diwrnod y Cydsyniad Brenhinol.

110. Daw adrannau 2, 3, 4 a Rhan 1 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 5, 7, 8 a Rhan 2 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 9 a Rhan 3 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 13 a Rhan 6 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen), 14 a Rhan 7 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen) 17, a 20 i rym ar ddiwedd y cyfnod o ddeufis sy'n dechrau â diwrnod y Cydsyniad Brenhinol.

111. Daw adrannau 6, 10, 11 a Rhan 4 o'r Atodlen (ac adran 15 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhan honno o'r Atodlen) i rym ar 1 Ebrill 2025.

112. Daw adran 18(2)(c) a (5) i rym drannoeth y diwrnod y Cydsyniad Brenhinol at ddiben gwneud rheoliadau o dan adrannau 6(4C)(b)(ii) a (4D) ac adran 11E(1), (2)(b), (3), (5) a (7) ac adran 11F(1) a (7) o Ddeddf 1992 (fel y'i diwygiwyd). At bob diben arall deuant i rym ar y diwrnod (neu'r diwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru.

113. Daw darpariaethau eraill y Ddeddf i rym ar ddiwrnod (neu ddiwrnodau) a bennir gan Weinidogion Cymru. Caiff gorchymyn yn hyn o beth wneud darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed.

Adran 24 – Enw byr

114. Mae'r adran hon yn darparu mai enw byr y Ddeddf yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) 2024.

COFNOD Y TRAFODION YN SENEDD CYMRU

115. Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r dyddiau ar gyfer pob cofnod o hynt y Ddeddf drwy'r Senedd. Gellir cael Cofnod y Trafodion a rhagor o wybodaeth am hynt y Ddeddf hon ar wefan y Senedd ar:
https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=42241&optionId=0

Cyfnod	**Dyddiad**
Cyflwynwyd	20 Tachwedd 2023
Cyfnod 1 Cyfarfod Llawn– Dadl	16 Ebrill 2024
Cyfnod 2 Pwyllgor Craffu – Ystyried y gwelliannau	13 Mehefin 2024
Cyfnod 3 Cyfarfod Llawn – Ystyried y gwelliannau	9 Gorffennaf 2024
Cyfnod 4 Cyfarfod Llawn - Cymeradwywyd gan y Senedd	16 Gorffennaf 2024
Y Cydsyniad Brenhinol	16 Medi 2024